# Canllaw Cyflym Cronfa Bensiwn Powys i (Ail)asesu cyfradd cyfraniadau cyflogeion

**Yn y cynllun presennol (2014), pennir y band priodol gan gyflog pensiynadwy gwirioneddol y cyflogai (nid eu cyflog pensiynadwy cyfwerth ag amser llawn, fel yn achos y cynllun cyflog terfynol).**

**Nodir y bandiau ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 – mae'r rhain yn newid bob blwyddyn, felly sicrhewch eich bod yn defnyddio'r tabl priodol os byddwch yn edrych ar y canllaw hwn ynglŷn â chyflog sy'n dod o fewn cyfnodau cyflog ar ôl 31/03/2024.**

***e.e. mae Amy'n gweithio 18.5 awr yr wythnos (a'r oriau llawn amser ar gyfer ei swydd yw 37 awr yr wythnos); ei chyflog yw £33,548. Mae'r cyfrifiad fel a ganlyn:***

***33548 x (18.5/37) = 33548 x 0.5 = £16774.00***

***Mae £16774.00 yn dod o fewn Band 2 ac felly cyfradd cyfraniad y cyflogai yw 5.8%.***

## Asesiad

**Mae'n rhaid cynnal yr asesiad a nodir uchod ar gyfer pob aelod gweithredol ar yr adegau hyn:**

- **pan fydd cyflogai yn dechrau swydd bensiynadwy newydd, *a***
- **bob blwyddyn, yn y cyfnod cyflog y mae Ebrill 1 yn cael ei gynnwys ynddo.**

**Gallwch hefyd ddewis adolygu'r band a'r gyfradd briodol o dan yr amgylchiadau canlynol:**

- **pan fo newid sylweddol mewn cyflog (e.e. cyfradd tâl newydd neu newid oriau)**
- **pan fydd y cyflogai'n derbyn dyfarniad cyflog *wedi'i ôl -ddyddio* /ailraddio. Os bydd hyn yn arwain at fandio newydd ar gyfer y cyflogai, mae gennych hefyd ddewis o naill ai:**
  - **cymhwyso'r band newydd o'r cyfnod cyflog y gweithredir y dyfarniad ynddo, neu**
  - **gymhwyso'r band newydd o ddyddiad y newid a chasglu'r ôl-ddyledion sy'n ddyledus o'r gwahaniaeth rhwng y 2 gyfradd ar yr holl dâl ôl-ddyddiedig.**

**Mae'n bwysig eich bod yn penderfynu sut yr hoffech ymdrin â'r senarios hyn, ac yn defnyddio'r un egwyddorion yn gyson, er mwyn osgoi heriau gan gyflogeion. Efallai y byddwch felly am ysgrifennu polisi ffurfiol ar y mater hwn i'w wneud ar gael i'ch cyflogeion; mae'n ddisgresiwn nad yw'n orfodol o dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol h.y. mae gennych ddisgresiwn i gyhoeddi dogfen bolisi ffurfiol ai peidio – gweler https://www.lgpslibrary.org/assets/gas/ew/DISCPv1.11c.pdf**

**Mae arweiniad pellach a mwy manwl ar gael yn y Canllaw AD ar dudalennau 5 - 10, sydd ar gael yn y tab Adnoddau Cyflogwyr yn https://lgpsregs.org/employer-resources/guidesetc.php. Mae'n ymdrin â senarios eraill, megis:**

- staff achlysurol
- lle nad yw'r tâl gwirioneddol am y flwyddyn yn hysbys ar y cychwyn
- lle mae'r tâl wedi'i amcangyfrif.

Atodiad 1

Tabl Cyfraniad Cymru a Lloegr 2023/24

| Band | Cyflog pensiynadwy gwirioneddol ar gyfer cyflogaeth | Cyfradd gyfrannu'r brif adran ar gyfer y gyflogaeth honno | Cyfradd gyfrannu adran 50/50 ar gyfer y gyflogaeth honno |
|---|---|---|---|
| 1 | Hyd at £16,500 | 5.50% | 2.75% |
| 2 | £16,501 i £25,900 | 5.80% | 2.90% |
| 3 | £25,901 i £42,100 | 6.50% | 3.25% |
| 4 | £42,101 i £53,300 | 6.80% | 3.40% |
| 5 | £53,301 i £74,700 | 8.50% | 4.25% |
| 6 | £74,701 i £105,900 | 9.90% | 4.95% |
| 7 | £105,901 i £124,800 | 10.50% | 5.25% |
| 8 | £124,801 i £187,200 | 11.40% | 5.70% |
| 9 | £187,201 neu fwy | 12.50% | 6.25% |

Nodiadau:

1. Cofiwch ddefnyddio'r cyflog gwirioneddol (nid cyfwerth ag amser llawn).
2. Os oes gan yr unigolyn fwy nag un gyflogaeth a bod y rhain yn cael eu trin fel swyddi ar wahân, bydd y cyflog pensiynadwy o bob swydd yn cael ei asesu ar wahân wrth bennu'r gyfradd cyfraniadau ar gyfer y swydd honno.
3. Mae'r cyflogai'n talu cyfraniadau ar y gyfradd band briodol ar yr holl gyflog pensiynadwy a dderbynnir mewn perthynas â'r swydd honno neu ar hanner y gyfradd honno os yw'r cyflogai yn y cynllun 50/50.
4. Ailasesu bob blwyddyn yn y cyfnod cyflog y mae Ebrill 1 yn cael ei gynnwys ynddo. Gellir cynnal ailasesiadau dewisol fel y disgrifir ar dudalen 1, yn unol â'ch polisi.